

STAPLEDON, Syr REGINALD GEORGE (1882 - 1960), gwyddonydd amaethyddol

Enw: Reginald George Stapledon

Dyddiad geni: 1882

Dyddiad marw: 1960

Priod: Doris Stapledon (née Wood Bourne)

Rhiant: Mary Stapledon (née Clibbert)

Rhiant: William Stapledon

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: gwyddonydd amaethyddol

Maes gweithgaredd: Natur ac Amaethyddiaeth; Gwyddoniaeth a Mathemateg

Awdur: Llywelyn Phillips

Ganwyd 22 Medi 1882 yn Northam, gogledd Dyfnaint, yn fab ieuangaf William a Mary Stapledon. Cafodd ei addysg yn yr United Services College, Westward Ho, a Choleg Emanuel, Caergrawnt, a graddio yn M.A. mewn botaneg yn 1904. Gweithiodd yn swyddfa fasnachol y teulu yng Nghairo am tua dwy fl., ac ar ôl hynny bu'n ddisgybl am flwyddyn ar fferm fawr yn tyfu ffrwythau yng Nghaint. Yn 1908 aeth yn ei ôl i Gaergrawnt i ddilyn cwrs diploma mewn amaethyddiaeth, a hwn oedd y trobwynt yn ei hanes a'i cyfeiriodd at waith mawr ei fywyd gyda thir glas. Bu'n Athro Botaneg Amaethyddol yng Ngholeg Brenhinol Amaethyddol Cirencester, 1909-12, ac yn ystod y cyfnod hwn yr amlygodd ei ddiddordeb eithriadol mewn ecoleg tir glas, mewn perthynas, yn arbennig, ag effaith haf sych 1911 ar borfeydd cynhenid y Cotswolds.

Fe'i penodwyd yn 1912 yn gynghorydd mewn botaneg amaethyddol dan y Bwrdd Amaethyddiaeth a Physgodfeydd i siroedd cylch coleg Aberystwyth, a dyna ddechrau'i gysylltiad hir ag amaethyddiaeth Cymru. Rhan o'i ddyletswyddau yn ystod ei ddwy flynedd gyntaf yn y swydd honno fu gwneud arolwg o dir glas gogledd Ceredigion fel rhan o arolwg gyflawn gan [Cadwaladr Bryner Jones](#) ar amaethyddiaeth, [O.T. Jones](#) ar ddaear, ac R.A. Yapp ar fotaneg. Rhwng 1916 ac 1918 bu'n gyfarwyddwr yr Orsaf Swyddogol i roi Profion ar Hadau, a sefydlwyd yn y cyfnod hwnnw yn Llundain. Yna, yn 1919, fe'i penodwyd yn gyfarwyddwr cyntaf Bridfa Blanhigion Cymru ac yn bennaeth yr Adran Botaneg Amaethyddol a sefydlwyd bryd hynny yng Ngholeg Prifysgol Cymru.

Yn y Fridfa rhwng 1919 ac 1942 gyda chydweithwyr ymroddedig o'i ddewis ei hun y cyflawnodd Stapledon waith mawr ei fywyd - gwaith a ddylanwadodd yn ddirfawr ar grefft a gwyddor ac, yn wir, ar athroniaeth tir glas ar bum cyfandir. Yn ystod y blynyddoedd hyn y sefydlwyd Biwroau Amaethyddol yr Ymerodraeth (y Gymanwlad ar ôl hynny) gyda Stapledon yn gyfarwyddwr yr un ar gyfer Tir Glas a Chnydau'r Maes a sefydlwyd yn Aberystwyth yn 1927. Efydoedd cyfarwyddwr y Cahn Hill Improvement Scheme a gychwynnwyd yn 1933 i droi canlyniadau mân arbrofion ar wella tir uchel ar fryndir Ceredigion yn waith ymarferol ar raddfa helaeth ar ran o ystad Hafod Uchtryd yng Nghwmystwyth. Gadawodd Aberystwyth yn 1942 er mwyn canolbwyntio ar ei swydd newydd fel cyfarwyddwr Gorsaf Gwella Tir Glas a sefydlwyd yn Stratford-on-Avon yn 1940, ac ar ôl ymddeol o'r swydd honno yn 1945 bu'n gynghorydd ac yn un o gyfarwyddwyr Dunn's Farm Seeds Ltd., Caersallog, tan i lesgedd a byddardod llwyr ei oddiweddyd yn ei flynyddoedd olaf.

Nid oes amheuaeth nad Stapledon yn ei gyfnod ydoedd gwyddonydd amaethyddol mwyaf adnabyddus y byd a'r awdurdod pennaf ar dir glas. Dan ei arweiniad eneiniedig ef daeth Bridfa Blanhigion Cymru yn sefydliad ymchwil o'r pwys pennaf ym Mhrydain a thros y môr mewn astudiaethau tir glas a bridio planhigion. Fe'i hanrhydeddwyd â'r C.B.E. yn 1932, fe'i hurddwyd yn farchog ac yn Gymrawd o'r Gymdeithas Frenhinol (F.R.S.) yn 1939, a chafodd radd D.Sc. er anrhydedd gan Brifysgolion Cymru a Nottingham. Enillodd fedal aur Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Lloegr, ac ef oedd llywydd y Bedwaredd Gynhadledd Ryngwladol ar Dir Glas a gynhaliwyd yn Aberystwyth yn 1937.

Cyhoeddodd liaws o ysgrifau gwyddonol ac amaethyddol, a golygodd gyfrolau ar dir glas ac ar wella tir. Cyhoeddodd (ymhlith pethau eraill): *Grassland, its improvement and management* (gyda J.A. Hanley, 1927); *A tour in Australia and New Zealand: grassland and other studies* (1928); *The hill lands of Britain: development or decay?* (1937); *The plough-up: policy and ley farming* (1941); *Make fruitful the land: a policy for agriculture* (1941); *The way of the land* (1943); *Disraeli and the new age* (1943). Ond, yn ddiamau, ei bennaf camp ydoedd ei lyfr *The land now and tomorrow* (1935).

Priododd, 1913, Doris Wood Bourne, ond ni fu iddynt blant. Bu farw yng Nghaerfaddon 16 Medi 1960, a chynhaliwyd gwasanaeth coffa amdano ym Mridfa Blanhigion Cymru, ger Aberystwyth. Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Goffa Stapledon i alluogi gwyddonwyr amaethyddol ieuainc o'r naill wlad i wneud gwaith ymchwil mewn gwlad arall o'r Gymanwlad.

Awdur

Llywelyn Phillips, (1914 - 1981)

Ffynonellau

Gwybodaeth bersonol

Who's who?

Journal of the British Grassland Society, 15 Ebrill 1960

Biographical Memoirs of Fellows of the Royal Society, 7, 1961

Robert Waller, *Prophet of the New Age. The life and thought of Sir George Stapledon, F.R.S.* (Llundain 1962)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [George Stapledon](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [244137591](#)

Wikidata: [Q5544787](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

